# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 12 Gorffennaf 2012** |
| Amser: | **11:00 – 12:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2012(6)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Angela Burns**<br>**Sandy Mewies**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Steven O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad (Swyddog)**<br>**Nicola Callow, Pennaeth Cyllid (Swyddog)**<br>**Ross Davies, Rheolwr Cydraddoldeb (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1. Introduction

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Bydd Dianne Bevan, y Prif Swyddog Gweithredu, yn ymddeol ddiwedd y tymor hwn. Dymunodd y Comisiynwyr yn dda i Dianne ar ei hymddeoliad gan ddiolch iddi am ei chyfraniad i waith y Cynulliad.

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1(iii) Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

## 2. Cyllideb ddrafft 2013-14

Cadarnhaodd y Comisiynwyr eto eu hymrwymiad i weithio o fewn y gwariant dangosol ar gyfer 2013-14 a nodwyd yn nogfen gyllidebol y llynedd.

Mae disgwyl y bydd y Comisiwn yn cytuno ar y gyllideb yn ei gyfarfod ar 27 Medi, cyn ei gosod gerbron y Cynulliad ar 28 Medi.

Cyfeiriodd y Comisiynwyr at y ddogfen sydd ar waith gan ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith ar gyllideb 2013-14.

**Camau i'w cymryd:** Bydd swyddogion yn parhau i weithio ar ddogfen y gyllideb yn ystod toriad yr haf, gan gynnwys y materion a drafodwyd yn y cyfarfod ynddi.

## 3. Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12 i'r Comisiynwyr i'w nodi. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio ddarparu Adroddiad Annibynnol i'r Comisiwn, ac i'r Swyddog Cyfrifyddu, yn crynhoi ei waith yn ystod y flwyddyn, ar yr un pryd ag y mae cyfrifon blynyddol y Comisiwn yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad.

Mae'r adroddiad yn nodi bod lefelau gwarantu yn y Comisiwn yn gyffredinol dda, â chyfle i wella mwy mewn rhai meysydd a chael gwell effeithlonrwydd wrth reoli a defnyddio rheolyddion. Bydd y Pwyllgor yn parhau i roi sylw penodol i'r meysydd hyn yn 2012-13 a sicrhau bod y rhaglen archwilio mewnol yn cefnogi hyn.

Noddodd y Comisiynwyr yr adroddiad.

Rhoddodd Claire Clancy grynodeb ar lafar o waith y Pwyllgor Archwilio, yn dilyn ei gyfarfod ar 5 Gorffennaf a chadarnhau bod y Pwyllgor Archwilio wedi argymell ei bod hi, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn llofnodi cyfrifon blynyddol y Comisiwn. Gwnaed hyn, ac roedd disgwyl i Archwilydd Cyffredinol Cymru eu llofnodi a'u cyflwyno yn ystod y dyddiau nesaf.

## 4. Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2011-12

Mae Comisiwn y Cynulliad yn llunio Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed ar y camau a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb 2008-2012. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith y mae staff y Comisiwn wedi ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng mis Ionawr 2011 a mis Mawrth 2012.

Mae uchafbwyntiau'n cynnwys hyrwyddo cymryd rhan mewn democratiaeth drwy ymgyrch 'Pleidleisiwch 2011'; datblygu ffyrdd o ymgysylltu ag amrywiol grwpiau ledled Cymru; cefnogi rhwydweithiau staff; dod yn rhif 20 ym mynegai cydraddoldeb Stonewall 2012; cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd gan grwpiau amrywiol, a datblygu taflenni gwybodaeth i addysgu Aelodau am eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Cymeradwyodd y Comisiynwyr waith y Tîm Cydraddoldeb a nodi'r llwyddiannau niferus yn ystod y cyfnod yr adroddwyd amdano.

Cytunwyd y byddai rhai newidiadau i'r adroddiad, gan gynnwys amlygu'r llwyddiannau mwyaf arwyddocaol yn fwy eglur a lleihau hyd cyffredinol y ddogfen, cyn ei chyhoeddi.

## 5. Rhaglen dreigl

Cynhelir cyfarfod nesaf y Comisiwn ddydd Iau 27 Medi. Bydd yr eitemau ar yr agenda yn cynnwys y Gyllideb Ddrafft 2013-14

## 6. Unrhyw Fusnes Arall

Bydd y Comisiynwyr yn cynnal cyfarfod anffurfiol ar 2 Awst.

Cytunodd Claire Clancy i rannu'r ohebiaeth ddiweddaraf ag Atos â'r Comisiynwyr.

Yna, aeth y Comisiwn i sesiwn breifat a chytuno ar gynnig ynghylch mater cyfrinachol yn ymwneud â staffio a gyflwynwyd iddynt gan y Prif Weithredwr yn unol â'r Ddirprwyaeth.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Gorffennaf 2012**